

# Mwncïod a Lemyriaid

Cyn chwarae'r gêm hon, bydd angen i'r disgyblion ddysgu rhagor am anifeiliaid y coedwigoedd glaw a'r peryglon sy'n eu hwynebu. Am enghreifftiau, gweler waelod y dudalen hon.

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ond gellir ei ddefnyddio hefyd hyd at CA2 fel ymarferion cynhesu cyn gwneud Ymarfer Corff/chwaraeon.

### Diben:

- Deall rhai o'r peryglon a wynebir gan anifeiliaid yn y coedwigoedd glaw
- Rhedeg o gwmpas a chael hwyl

**Amser awgrymedig:** 15 - 20 munud

**Adnoddau:** 15 disgybl neu fwy a digonedd o le i redeg o gwmpas

### I ddechrau:

Rhannwch y disgyblion yn grwpiau, er enghraifft, os oes gennych 30 disgybl bydd hanner ohonynt (15) yn goed, bydd 12 ohonynt yn anifeiliaid, a bydd 3 ohonynt yn bobl.

### Sut i chwarae:

- Mae'r coed yn gwasgaru o amgylch y lle, ac yna'n sefyll â'u dwylo ar led
- Mae anifeiliaid y goedwig law yn rhedeg o goeden i goeden, gan symud a gwneud synau fel yr anifail y maent wedi'i ddewis.

- Mae'r bobl yn ceisio dal yr anifeiliaid.
- Dim ond pan y mae'r anifeiliaid rhwng y coed y gall pobl eu dal. Os yw'r anifeiliaid yn cyffwrdd â changen coeden (braich disgybl) mae nhw'n ddiogel. Mae'n rhaid i'r anifeiliaid redeg o goeden i goeden. Os cânt eu dal byddant allan o'r gêm a rhaid iddynt sefyll ar yr ochr.

### Effeithiau datgoedwigo:

Stopiwch y gêm a gofynnwch i hanner y coed i sefyll ar yr ochr gyda'r anifeiliaid sydd wedi cael eu dal. Caniatewch i'r disgyblion chwarae'r gêm eto. Mae'r anifeiliaid sydd ar ôl mewn mwy o berygl gyda llai o goed.

### Ailgoedwigo:

Stopiwch y gêm a chaniatewch i bawb ar yr ochr i fod yn goed. Po fwyaf o goed yr anoddaf fydd hi i'r bobl ddal yr anifeiliaid.

Yna, gallwch gyfnewid y rolau i ganiatáu i'r coed fod yn anifeiliaid neu bobl.

### Peryglon sy'n wynebu anifeiliaid y coedwigoedd glaw:

Mwnciod, lemyriaid a tsimpansâid	cael eu hela am eu cig (bushmeat)
Nadroedd	cael eu hela am eu crwyn
Eliffantod y goedwig	cael eu hela am ifori
Parotiaid a macawiaid	cael eu cipio o'r goedwig a'u gwerthu i'w cadw mewn caethiwed
Meleirth	cael eu gwerthu i'r fasnach anifeiliaid Anwes

**Wrth gwrs, y perygl mwyaf i holl anifeiliaid y coedwigoedd glaw yw pan fo'u cynefinoedd yn cael eu dinistrio.**